# Tirfeddianwyr Cyfagos a'r Brifford Gyhoeddus

## Canllaw i rolau a chyfrifoldebau




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

*Mae Sir Gaerfyrddin yn ardal wledig yn bennaf lle mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r economi leol. Gan mai hon yw'r sir ail fwyaf yng Nghymru mae gennym rwydwaith priffyrdd eang sy'n ymestyn dros 3500km o ffyrdd ac mae llawer o'r rhwydwaith yn darparu mynediad pwysig drwy gysylltu trefi marchnad, pentrefi ac aneddiadau gwledig.*

*Mae cydweithio â thirfeddianwyr, a'r gymuned ffermio yn enwedig, yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod ni i gyd yn chwarae ein rhan wrth gynnal rhwydwaith priffyrdd hygyrch a diogel a'n bod yn diogelu cynefinoedd pwysig.*

*Mae'r llyfryn hwn yn helpu i esbonio rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Priffyrdd, Cyngor Sir Caerfyrddin, a thirfeddianwyr cyfagos ynglŷn ag ystod o faterion cysylltiedig gan gynnwys diogelwch ffyrdd, perthi a choed wrth ymyl y ffordd, ymylon y briffordd, ffosydd a dyfrffosydd wrth ymyl y ffordd, mwd ar y briffordd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus.*

## Gweithio'n Ddiogel ar y Briffordd



Mae gan unrhyw un sy'n gweithio neu'n teithio ar y briffordd gyhoeddus ddyletswydd gofal i sicrhau nad ydynt yn peryglu defnyddwyr ffyrdd eraill. Mae cyngor penodol ynghylch gweithio ar y briffordd ar gael yn nogfen 'Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd' yr Adran Drafnidiaeth a Phennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig sydd ar gael ar-lein.

## Meysydd Cyfrifoldeb Cyffredinol

Dangosir cyfrifoldebau cyffredinol ar y diagram isod, er efallai y bydd rhai eithriadau i'r rhain mewn achosion penodol.





Mae cynefinoedd ac ymylon ffyrdd yn darparu cynefinoedd gwerthfawr ac mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswyddau rheoli ar dirfeddianwyr a'r Awdurdod Priffyrdd.

## Ymylon Ffyrdd

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r ymylon ffyrdd glaswelltog fel arfer. Mae gennym rhaglen ar waith ar gyfer torri'r ymylon ffyrdd yn ystod misoedd yr haf sydd wedi'i chynllunio i gynnal diogelwch ffyrdd, sicrhau gwelededd, darparu mannau i gerddwyr allu camu oddi ar y ffordd gerbydau os nad oes llwybrau troed ac i atal rhywogaethau dieisiau rhag ymsefydlu.


Mae ein gwaith cynnal a chadw ymylon ffyrdd wedi'i ddatblygu hefyd i ddiogelu cynefinoedd pwysig drwy dorri rhai ardaloedd yn gynharach neu'n hwyrach yn y tymor er mwyn galluogi rhywogaethau brodorol i ffynnu.

## Perthi a Choed




Cyfrifoldeb y tirfeddianwyr cyfagos yw perthi a choed terfyn.
Os nad yw coed a pherthi yn cael eu rheoli'n gywir gallant amharu ar ddiogelwch ffyrdd, yn enwedig ger cyffyrdd neu droeon lle gallant beryglu gwelededd hanfodol. Gall hyd yn oed dyfiant ysgafn achosi problemau i gerddwyr a beicwyr. Mae'n rhaid gofalu nad yw perthi yn cael eu torri yn ystod tymor nythu adar oni bai bod pryder mawr o ran diogelwch.

Dylid gwaredu unrhyw wastraff sy'n deillio o'r gwaith torri perthi er mwyn osgoi peryglu defnyddwyr y ffordd ac yn enwedig beicwyr ac anifeiliaid. Dylid gofalu hefyd nad achosir difrod i unrhyw ffosydd a dyfrffosydd, ac ni ddylid gadael i wastraff rwystro sianeli draenio.




Mae'r Ddeddf Priffyrdd yn rhoi grym i'r Cyngor Sir i gyflwyno hysbysiad i dirfeddianwyr ynglŷn â thorri perthi neu goed sydd wedi gordyfu a gellir adennill costau os oes angen, ond byddai'n well gennym osgoi gwneud hyn a gweithio gyda thirfeddianwyr lle bynnag y bo'n bosibl. Dylid cytuno ar unrhyw waith torri coed â Chyfoeth Naturiol Cymru.

## Ffosydd a Sianeli wrth Ymyl y Ffordd

Mae draenio da yn hanfodol i'r briffordd yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae mwy o ddibyniaeth ar ffosydd i gludo dŵr wyneb. Cyfrifoldeb tirfeddianwyr cyfagos yw ffosydd wrth ymyl y ffordd fel arfer er y gallai dŵr oddi ar y briffordd ddraenio i mewn iddynt ac mae dyletswydd cyfraith gwlad ar dirfeddianwyr cyfagos i'w cynnal a'u cadw.

Cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw dyfrffosydd (sianeli) sy'n torri trwy ymyl y ffordd i'r ffos. Mae gennym raglenni ar waith i arolygu a chynnal y rhain ond gellir amharu ar eu perfformiad os nad yw'r ffos sy'n draenio'r dŵr yn cael ei chynnal a'i chadw mewn modd priodol. Dylai tirfeddianwyr cyfagos sicrhau nad yw dŵr wyneb yn cael ei ollwng ar y briffordd ac os yw draeniad y briffordd yn effeithio ar dir cyfagos cysylltwch â'r Adran Priffyrdd.

## Mwd ar y Briffordd



Gall mwd a baw sy'n cael ei ollwng ar y briffordd achosi damweiniau, rhwystro draeniau a chwteri, a bod yn niwsans i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd. Mae'n drosedd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i ollwng mwd neu faw ar y briffordd a dylid gofalu na fydd hyn yn digwydd.

Lle bo mwd ar y briffordd dylid ei lanhau cyn gynted â phosibl a dylid rhoi arwyddion rhybuddio hyd nes y bydd y ffordd yn lân (cofiwch nad yw arwyddion rhybudd ohonynt eu hunain yn atal atebolrwydd dros ddamweiniau sy'n digwydd). Mae hyn hefyd yn berthnasol lle mae anifeiliaid yn defnyddio'r briffordd. Os oes angen, bydd y Cyngor Sir yn cymryd camau i lanhau'r priffyrdd ac yn adennill ein costau o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

## Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Mae llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau a chilffyrdd yn briffyrdd cyhoeddus hefyd ac mae ein tîm hawliau tramwy cyhoeddus yn cadw cofnod o'r rhain (2400km). Mae'n ddyletswydd arnynt i ddiogelu ac arddel hawl y cyhoedd i'w defnyddio. Dylai tirfeddianwyr sicrhau nad yw hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu rhwystro, eu bod yn rhydd rhag llystyfiant sydd wedi gordyfu a'u bod yn glir o gnydau. Cyfrifoldeb y tirfeddianwyr hefyd yw sicrhau bod sticlau a gatiau ar lwybrau cerdded a llwybrau ceffylau yn cael eu cynnal mewn cyflwr diogel a derbyniol ar gyfer cerddwyr a marchogion.




*Mae'r canllaw hwn yn dilyn ymgynghoriad â*
*Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru a'r Gymdeithas Tirfeddianwyr Cefn Gwlad.*
*Nid yw'n awgrym terfynol o gyfrifoldeb.*

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**

**www.sirgar.llyw.cymru**

**www.naturalresources.wales**

NFU CYMRU

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

GD4853